

Diwygiadau i Gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio

Dyddiad lansio: 20 Awst 2020

Ymateb erbyn: 16 Medi 2020

I bwy fydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb fwyaf?

Pob busnes bwyd a bwyd anifeiliaid yn y Deyrnas Unedig (DU), awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb mewn cyfraith diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid.

Pwnc ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â diwygiadau pellach i reoliadau bwyd a bwyd anifeiliaid y DU, gan gynnwys y rhai sy'n ofynnol trwy gymhwysu'r Cytundeb Ymadael a Phrotocol Gogledd Iwerddon, sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir sy'n ymwneud â diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid yn parhau i fod yn effeithiol ar ddiwedd y Cyfnod Pontio.

Pwrpas yr ymgynghoriad

Ceisio barn busnesau, defnyddwyr, rhanddeiliaid eraill, awdurdodau lleol a'r cyhoedd ehangach ar newidiadau y mae Gweinidogion yn bwriadu eu gwneud i gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid.

Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at:

| | |
|---|--|
| E-bost: EUExitPolicy@food.gov.uk Dean Lewis Cyfarwyddiaeth Strategaeth, Cyfathrebu, Cyfreithiol a Llywodraethu | Cyfeiriad post: Gofynnir am bob ymateb trwy e-bost |
|---|--|

Manylion yr ymgynghoriad

Cyflwyniad

1. Rhwng 4 Medi 2018 a 14 Hydref 2018, cynhaliodd yr [Asiantaeth Safonau Bwyd \(ASB\) ymgynghoriad â rhanddeiliaid](#) ar y dull arfaethedig o ymdrin â chyfraith yr UE a ddargedwir ar gyfer diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid mewn perthynas ag ymadawiad y DU â'r UE.
2. Yn dilyn yr ymgynghoriad, gwnaed 17 Offeryn Statudol o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ar gyfer diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae rhestr lawn i'w gweld yn Atodiad B.
3. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â newidiadau pellach sydd eu hangen i sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid yn parhau i weithredu'n gywir ar ddiwedd y Cyfnod Pontio o ran y Cytundeb Ymadael a Phrotocol Gogledd Iwerddon.
4. Blaenoriaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yw cynnal safonau diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid uchel y DU gan ddiogelu defnyddwyr. Mae'r ASB yn cynnig gofyn i Weinidogion y DU wneud nifer o newidiadau ychwanegol i ddiweddarau cyfraith yr UE a ddargedwir ymhellach gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Gwneir y newidiadau trwy reoliadau cadarnhaol o fewn Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020¹, sydd wrthi'n cael eu paratoi.
5. Mae diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn faes datganoledig, felly mae Llywodraeth y DU yn ceisio caniatâd gan y gweinyddiaethau datganoledig cyn defnyddio pwerau o dan adrannau 8 ac 8C Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Cytunwyd yn flaenorol bod 17 Offeryn Statudol Ymadael â'r UE a ddiwygiodd cyfraith yr UE a ddargedwir mewn perthynas â bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu gwneud ledled y DU. Caiff y rheoliadau arfaethedig eu llunio yn ddarostyngedig i gydsyniad y gweinyddiaethau datganoledig.
6. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw rhoi cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau ar y dull arfaethedig. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal ar sail pedair gwlad ac fe'i paratowyd mewn cydgysylltiad â'r gweinyddiaethau datganoledig.

¹Mae'n bosib y bydd teitl y rheoliadau yn cael ei ddiweddarau maes o law ac y gellir dwyn rheoliadau ychwanegol ymlaen yn ôl yr angen i gwblhau'r broses hon a gwneud newidiadau pellach.

Prif gynigion:

7. Gwneir y diwygiadau arfaethedig yn unol ag adran 8 ac 8C Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Protocol Gogledd Iwerddon

8. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU Bapur Gorchymyn² ar ei agwedd at Brotocol Gogledd Iwerddon ar 20 Mai 2020 a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am effeithiau'r Protocol yn y Papur.
9. Nid yw goblygiadau polisi ehangach Protocol Gogledd Iwerddon yn cael eu hystyried yn yr ymgynghoriad hwn. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar y diwygiadau deddfwriaethol angenrheidiol i gyfraith yr UE a ddargedwir mewn perthynas â diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, er mwyn sicrhau bod Protocol Gogledd Iwerddon yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn y gyfraith.
10. O ganlyniad i Brotocol Gogledd Iwerddon, bydd rhai meysydd o gyfraith yr UE yn parhau i fod yn berthnasol i'r DU mewn perthynas â Gogledd Iwerddon. Bydd Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020 yn ailedrych ar 17 Offeryn Statudol diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid Ymadael â'r UE (a restrir yn Atodiad 2) i gymhwyso cyfraith yr UE a ddargedwir i Brydain yn hytrach na'r DU.
11. Bydd y diwygiadau'n cynnwys cyfyngu ar gymhwyso cyfraith yr UE a ddargedwir i Brydain a sicrhau bod cyfeiriadau at gyrff Gogledd Iwerddon yn cael eu tynnu o'r prosesau gwneud penderfyniadau diwygiedig yng nghyfraith yr UE a ddargedwir.

Deddfwriaeth bellach yr UE a ddaeth i rym ers llunio'r Offerynnau Statudol ar Ymadael â'r UE

12. Mae Deddfwriaeth UE pellach yn ymwneud â diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid wedi dod i rym ers llunio'r 17 Offeryn Statudol ar Ymadael â'r UE yn 2019. Bydd Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020 yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yng nghyfraith yr UE a ddargedwir yn y meysydd hynny i sicrhau llyfr statud cywir ar ddiwedd y cyfnod pontio, gan ystyried Protocol Gogledd Iwerddon.
13. Bydd yr Offeryn Statudol arfaethedig hefyd yn cywiro gwallau yn yr Offerynnau Statudol blaenorol ar Ymadael â'r UE, gan gynnwys gwallau a nodwyd gan y JSCI.
14. Daeth mwyafrif Rheoliad (UE) 2017/625 (y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol) i rym ar 14 Rhagfyr 2019. Mae'r ASB yn gweithio gyda Defra i sicrhau bod cyfraith

² <https://www.gov.uk/government/publications/the-uks-approach-to-the-northern-ireland-protocol>

yr UE a ddargedwir mewn perthynas â Rheoliad (UE) 2017/625 yn gweithredu'n effeithiol a bod unrhyw ddeddfwriaeth drydyddol sy'n weddill yn cael ei diwygio fel sy'n briodol.

Effeithiau

15. Mae'r rheoliadau sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020 wedi'u dylunio i drwsio unrhyw elfennau o ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir na ellir eu gweithredu yn unig ac i sicrhau rheolaethau ac arferion hylendid parhaus gweithredwyr busnesau bwyd. Bydd yr offeryn hwn yn rhoi parhad i randdeiliaid; ac nid yw'r ASB wedi nodi unrhyw effaith sylweddol o'r newid deddfwriaethol heblaw mewn perthynas â chost ymgyfarwyddo untro, a amlinellir isod. Felly ni grëwyd asesiad effaith ar gyfer y rheoliadau hyn y mae'r ASB wedi ardystio eu bod yn is na'r trothwy 'de minimis' +/- £5 miliwn cost uniongyrchol net flynyddol gyfwerth i fusnesau.

Costau Ymgyfarwyddo Untro

16. Rydym ni'n cymryd yn ganiataol bod pob sefydliad bwyd cofrestredig yn ymwneud â'r maes hwn o ddeddfwriaeth ac felly bydd yn rhaid iddynt fuddsoddi i ddeall y ddeddfwriaeth newydd. Yn ôl Cofrestr Busnesau Rhyngadrannol y Swyddfa Ystadegau Gwladol neu'r ONS (IDBR), roedd tua 220,000 o fusnesau gweithredol yn y sector bwyd-amaeth yn 2019. Rydym ni'n rhagweld costau ymgyfarwyddo untro isel i fusnesau; rydym ni'n amcangyfrif y bydd yn cymryd un awr i bob busnes ddarllen a deall y rheoliadau arfaethedig ac yna lledaenu'r wybodaeth i staff allweddol o fewn eu cwmni. Mae'n annhebygol y bydd y newidiadau a ragwelir yn cyflwyno unrhyw effaith arall ar weithrediadau o ddydd i ddydd busnesau gan nad yw'r rheolau yn newid o ganlyniad i'r cynigion hyn.
17. Mae tua 419 o awdurdodau lleol a 22 awdurdod iechyd porthladd yn y DU, ynghyd â'r ASB, Safonau Bwyd yr Alban a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon (DAERA), sy'n ymgymryd â rheolaethau swyddogol ar ddiogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid. Nid ydym ni'n rhagweld costau ymgyfarwyddo mawr i awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd porthladdoedd nac adrannau eraill y llywodraeth. Gwnaethom amcangyfrif y bydd yn cymryd hyd at un awr i awdurdodau ddarllen ac ymgyfarwyddo â Rheoliadau'r UE ac yna lledaenu'r wybodaeth i staff a rhanddeiliaid allweddol. Amcangyfrifir y bydd angen i un swyddog ym mhob un o'r awdurdodau hyn (er enghraifft, un Swyddog Bwyd/Bwyd Anifeiliaid o bob awdurdod lleol; ac un 'Swyddog Iechyd Porthladd' o bob awdurdod iechyd porthladd) gyflawni'r dasg hon.
18. O'i gymharu â'r system gyfredol, ni fyddai unrhyw faich ychwanegol na newydd ar gyfrif gorfodi, ac eithrio'r rhai a nodwyd yn y costau uchod.

19. At hynny, mae'r ASB yn anelu at leihau'r effaith ar fusnesau ac awdurdodau trwy ddarparu gwybodaeth am unrhyw newidiadau i ofynion brandio cyfredol yr UE cyn gynted ag y bo modd i sicrhau digon o amser i weithredu. Byddwn yn parhau i dargedu ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a bydd ymgynghoriad ffurfiol yn dilyn fel sy'n ofynnol.

Buddion

20. Nid oes unrhyw fuddion cynyddol sy'n gysylltiedig â'r cynnig gan nad yw'n gorfodi unrhyw newidiadau ymarferol i weithrediadau busnesau na chyrrff gorfodi.

Proses Ymgynghori

21. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn parhau ar agor tan ddiwedd y dydd ar 16 Medi.

Cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn:

C1: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dull arfaethedig o drwsio unrhyw elfennau anweithredol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir gan ystyried Protocol Gogledd Iwerddon ar gyfer y diwrnod cyntaf ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben fel y nodir yn yr ymgynghoriad hwn?

C2: A ydych chi'n rhagweld unrhyw bryderon neu risgiau ynghlwm â'r dull arfaethedig o drwsio elfennau anweithredol yng Nghyfraith yr UE a ddargedwir nad yw'n ymddangos eu bod wedi cael sylw digonol?

C3: A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw effeithiau y gallai'r mesurau arfaethedig eu cael nad ydynt wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad hwn?

C4: A ydych chi'n cytuno â'r effeithiau a nodwyd yn yr ymgynghoriad hwn?

C5: Er bod yr ymgynghoriad hwn yn mynd i'r afael â'r hyn sy'n cael ei wneud i sicrhau bod swyddogaethau cyfraith yr UE a ddargedwir yn parhau ar y diwrnod y daw'r Cyfnod Pontio i ben, a oes gennych chi unrhyw sylwadau cyffredinol ar ddeddfwriaeth diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid yn y DU ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben?

Ymatebion

Rhaid i'r ymatebion ddod i law erbyn diwedd y dydd ar 16 Medi 2020. Yn eich ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae'ch sefydliad yn eu cynrychioli).

Ar ran yr ASB, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

Dean Lewis

Cyfarwyddiaeth Strategaeth, Cyfreithiol, Cyfathrebu a Llywodraethu

Atodiad A: Gwybodaeth safonol am yr ymgynghoriad

Datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych

Efallai caiff yr wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ei chyhoeddi i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os dymunwch i'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol bod yna God Ymarfer statudol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod yn ystyried yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa.

Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system technoleg gwybodaeth, ar ei ben ei hun, yn cael ei ystyried fel un sy'n rhwymo.

Yr ASB fydd 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

Pam ein bod ni'n casglu eich data personol?

Mae eich data personol yn cael ei gasglu fel rhan hanfodol o'r broses ymgynghori, fel y gallwn gysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb ac at ddibenion ystadegol. Efallai hefyd y byddwn ni'n ei ddefnyddio i gysylltu â chi am faterion cysylltiedig.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn datgan y gall yr ASB, fel adran o'r llywodraeth, brosesu data personol fel bo'r angen er mwyn cyflawni tasg sydd er budd y cyhoedd yn effeithiol hynny yw, ymgynghoriad.

Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth?

Mae'r holl ddata personol rydym ni'n ei brosesu yn byw ar weinyddion o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae ein gwasanaethau cwmwl wedi'u caffael drwy Gytundebau Fframwaith y Llywodraeth a'u hasesu yn erbyn egwyddorion cwmwl y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Nid oes gan drydydd partïon fynediad at eich data personol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Bydd yr ASB weithiau'n rhannu data gydag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus a sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau statudol, neu pan fydd er budd y cyhoedd.

Beth yw eich hawliau?

Mae gennych chi'r hawl i weld yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost isod. Os ydych chi ar unrhyw adeg o'r farn bod yr wybodaeth rydym ni'n ei phrosesu amdanoch chi yn anghywir, gallwch chi wneud cais i'w chywiro. Os hoffech chi wneud cwyn am y ffordd rydym ni wedi trin eich data personol, gallwch chi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych chi'n fodlon â'n hymateb neu os ydych chi o'r farn nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, fe allwch chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy <https://ico.org.uk>, neu drwy ffonio 0303 123 1113.

Ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB yw Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch. Gallwch chi gysylltu drwy anfon e-bost at:
informationmanagement@food.gov.uk

Rhagor o wybodaeth

Os ydych chi angen y ddogfen hon mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y swyddog cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag [egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Mawrhydi](#).

Atodiad B: Rhestr lawn o Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE yr ASB

| Teitl yr Offeryn Statudol | Rhif yr Offeryn Statudol |
|---|--------------------------|
| <u>Rheoliadau Cyfraith Bwyd Cyffredinol (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019</u> | 2019/641 |
| <u>Rheoliadau Hylendid Bwyd Cyffredinol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019</u> | 2019/642 |
| <u>Rheoliadau Hylendid Bwyd Penodol (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019</u> | 2019/640 |
| <u>Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019</u> | 2019/639 |
| <u>Rheoliadau Bwydydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019</u> | 2019/462 |
| <u>Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Lefelau o Halogiad Ymbelydrol a Ganiateir) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019</u> | 2019/701 |
| <u>Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019</u> | 2019/705 |
| <u>Rheoliadau'r Rheolaethau Swyddogol ar gyfer Bwyd, Bwyd Anifeiliaid ac Iechyd a Lles Anifeiliaid (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019</u> | 2019/665 |
| <u>Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cyfyngiadau Chernobyl a Fukushima) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019</u> | 2019/699 |
| <u>Rheoliadau Bwyd Newydd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019</u> | 2019/702 |
| <u>Rheoliadau Mewnforion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd) 2019</u> | 2019/664 |
| <u>Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Ymadael i â'r UE) 2019</u> | 2019/704 |
| <u>Rheoliadau Egin a Hadau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019</u> | 2019/464 |
| <u>Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019</u> | 2019/654 |

| | |
|--|-----------|
| <u>Rheoliadau Ychwanegion Bwyd, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019</u> | 2019/860 |
| <u>Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019</u> | 2019/1013 |
| <u>Rheoliadau Hylendid Bwyd Penodol (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019</u> | 2019/1247 |